



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad yn dilyn monitro
Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn**

**Cylch Meithrin Llangwryfon
Neuadd Santes Ursula
Llangwryfon
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4HA**

Dyddiad yr ymweliad: Mai 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Y tîm monitro

Sheila Birkhead	Arolygydd Cofnodol
-----------------	--------------------

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Llangwryfon wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd Medi 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r lleoliad ymhen tua thri mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Argymhelliad 1: Ymsefydlu'r gweithdrefnau cynllunio ymhellach i ddatblygu medrau'r plant yn fwy systematig ar draws y meysydd dysgu

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r cylch yn defnyddio canllawiau'r awdurdod lleol yn briodol fel man cychwyn i'r cynllunio. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ar draws yr holl feysydd dysgu. Yn ddiweddar, mae'r cylch wedi dechrau defnyddio fformat a addaswyd yn arbennig iddynt gan yr awdurdod lleol, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn dangos pa wahanol fedrau maent yn bwriadu canolbwyntio arnynt bob dydd. Fodd bynnag, mae'r arweinydd yn paratoi'r cynlluniau ar ddechrau bob hanner tymor. O ganlyniad, nid yw'n gallu defnyddio gwybodaeth o'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol i sicrhau bod y plant yn derbyn heriau priodol. Mae'r arweinydd yn amlygu medrau yn rheolaidd yn y cynlluniau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn rhy ben agored a chyffredinol i sicrhau bod y plant yn gwneud digon o gynnydd. Yn ogystal, nid oes gan y cylch unrhyw system i gofnodi pa fedrau maent yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol.

Yn ystod yr ymweliad, gwelwyd bod y plant wedi eu rhannu'n briodol yn ddau grŵp ar gyfer y dasg ffocws yn ôl eu hoed. Wrth gynllunio'r tasgau ffocws, mae'r arweinydd yn dilyn canllaw'r awdurdod lleol i benodi deilliannau gwahanol ar gyfer plant o wahanol oed a gallu. Fodd bynnag, nid yw'r medrau a benodwyd wrth wneud hyn yn cyfateb i'r prif fwriad dysgu. Mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r broses ac yn cyfyngu ar ei heffeithiolrwydd. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer chwarae annibynnol y plant yn ddigon penodol nac yn cael eu diweddarau'n ddigon aml i gefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Argymhelliad 2: Datblygu'r defnydd o ddeilliannau asesu cynnydd plant wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ystod eang yn oed a gallu'r plant sy'n mynychu'r cylch yn gosod her i'r staff ddarparu'n briodol ar eu cyfer. Mae'r staff yn arsylwi'r plant yn rheolaidd yn ystod tasgau ffocws ac wrth iddynt chwarae yn y ddarpariaeth barhaus. Maent yn cadw cofnodion priodol o'r arsylwadau, sy'n creu darlun defnyddiol o'r hyn y mae'r plant yn gallu ei wneud. Fodd bynnag, nid ydynt yn llwyddo i ddefnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i amlygu'r camau nesaf iddynt. Yn ogystal, nid yw'r asesiadau o'r

hyn a wnânt yn y tasgau ffocws yn cyfateb i'r bwriad dysgu yn ddigon agos i alluogi'r staff i benodi'r ffordd ymlaen iddynt yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd a'r cynorthwydd yn trafod yr asesiadau a'r camau ymlaen yn anffurfiol bob wythnos. Mae hyn yn dechrau cyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn â'r adnoddau a gynigir yn y ddarpariaeth barhaus, ac at werthusiad perthnasol o effeithiolrwydd y tasgau. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd yn gwneud defnydd digon cyson nac effeithiol o'r wybodaeth a gesglir yn ystod y sesiynau i fwydo'r cynlluniau.

Mae staff y cylch yn cadw cofnodion manwl wrth asesu'r gweithgareddau mathemategol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn amlygu cynnydd y plant na'r camau nesaf ar eu cyfer yn ddigon clir.

Argymhelliad 3: Sefydlu gweithdrefnau arfarnu mwy cadarn i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r arweinydd wedi cydweithio gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol i sicrhau bod hunanarfarniad y cylch yn nodi'r materion priodol. Mae'r ddogfen ar y cyfan yn lled arfarnol, er nad yw bob tro'n nodi gwerthusiadau'n ddigon clir, yn enwedig wrth drafod y ddarpariaeth. Dim ond yn ddiweddar iawn mae aelodau'r pwyllgor cyfredol wedi dod yn rhan o'r gwaith hunanarfarnu. O ganlyniad, nid ydynt eto wedi cyfrannu'n effeithiol i'r broses er mwyn sicrhau gwelliannau cyson. Mae'r arweinydd wedi rhannu'r ddogfen hunanarfarnu yn briodol gyda'r cynorthwy-ydd newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cylch wedi ystyried eu barn wrth lunio'r ddogfen er mwyn sicrhau bod yr arfarniad yn ddigon effeithiol a chynhwysol. Mae'r cylch yn rhannu holiaduron Mudiad Meithrin yn flynyddol gyda'r rhieni er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn am safon y ddarpariaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes ganddynt ddull priodol i sicrhau bod pob rhiant yn derbyn copi. Er hyn, mae'r rhieni yn cael cyfle addas i rannu eu syniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor. Mae'r arweinydd wedi rhoi sylw da i hyn gan arwain at brofiadau buddiol i'r plant, yn cynnwys ymweliad i sioe hwyliog cyn y Nadolig.

Mae cynllun datblygu'r cylch yn cynnwys targedau addas ac amserlen briodol, ac yn dangos pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau. Mae'r cylch wedi dechrau gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn rhai targedau, er enghraifft wrth wneud mwy o ddefnydd o'r ardal allanol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn wedi cael amser i wreiddio eto. Yn gyffredinol, mae hi'n rhy fuan i asesu effeithiolrwydd y cynllun a llwyddiant y cylch wrth weithio tuag at y targedau.

Argymhelliad 4: Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod yr arolygiad

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r cylch wedi delio'n addas gyda'r mater a amlygwyd adeg yr arolygiad craidd.

Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.